



### Y Casglwr

**CYMDEITHAS BOB OWEN**  
Tâl aelodaeth: £7.50 y flwyddyn

### SWYDDOGION

#### Cadeirydd:

E.WYN JAMES,  
Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd.

#### Ysgrifennydd:

ANGHARAD JONES  
1 Rhês y Priordy, Vinegar Hill,  
Caernarfon, LL55 1TB  
(01286) 77354 neu (01286) 679636

#### Trysorydd:

GWYNDAF ROBERTS,  
Cae'r Hafod, Maes Caled,  
Dolgellau LL40 1UF  
(01341) 423959

#### Golygydd:

MEL WILLIAMS  
Tanycastell, Llanuwchllyn,  
Y Bala, Gwynedd, LL23 7TA  
(01678) 540652  
e-bost: tanycastell@yahoo.com

## CYNNWYS

	Tud.
Marwol Law arall .....	3
Gwneuthurwyr Clociau Llanrwst	5
Cylchgrawn Celtaidd .....	7
Ann Griffiths .....	9
Atgofion Eisteddfodol .....	11
Stâd Y Rhiwlas .....	12
Crwydro a Mwydro .....	15
Arloesydd y Llaw-fer .....	17
Gwibdaith y Gymdeithas .....	19
Adolygiadau .....	22

### LLUN Y CLAWR

Llun o eglwys hynafol Llanfor ger  
Y Bala – am yr hanes gweler tud. 12  
*© Llun: Evan L. Dobson*

### Y RHIFYN NESAF

Erthyglau a hysbysebion i'r golygydd  
erbyn IONAWR 24

### GWASANAETH Y DEILLION

Mae'r Gymdeithas yn darparu tapiau  
llafar o erthyglau sy'n ymddangos yn  
Y Casglwr i Danysgrifwyr yn unig.  
*Am fwy o wybodaeth cysylltwch â*  
**Miss Anne K. Till (01970) 920235**

# Golygyddol

## Yr Eisteddfod

Bu Stodin y Gymdeithas yn yr Eisteddfod yn llwyddiannus iawn a chafwyd nifer helaeth o aelodau newydd, ynghyd â nifer o hen aelodau yn newid i dalu drwy archeb banc. Gan ein bod â thanysgrifiad rhad iawn o £7.50 mae'n angenrheidiol ein bod yn gwybod yn union faint o arian sy'n dod i mewn i'r coffrau ar ddechrau blwyddyn.

Hoffwn ddiolch o galon i Don Treharne a'i wraig Nesta am gasglu a gosod arddangosfa o waith y ddiweddar Vera Bassett, yr arlunydd lleol, yn y babell ar faes yr Eisteddfod. Daeth rhai degau o bobol leol i weld y casgliad ac roeddynt wedi eu rhyfeddu. Daeth un â lluch gwreiddiol mewn ffrâm i ddangos imi. Gwyh iawn. Rydym eleni wedi dileu 100 o enwau am nad oes tâl aelodaeth wedi cyrraedd ers dros dair blynedd.

## Rhai Aelodau ddim yn talu

Taer erfyniaf arnoch i edrych a ydych wedi talu neu beidio. Rydym ni'n dal â 1000 o aelodau ond, mae yna nifer allan yna i'w hargyhoeddi. Beth am i bawb fod yn llysgennad ac annog ffrindiau a chydabod i ymaelodi. Prynwch danysgrifiad i'ch cyfeillion yn anrheg 'Dolig.

## Rhodd Gymorth

Mae'r rhain yn cael eu dychwelyd, ond yn felltgedig o araf. Allan o 1000 o aelodau, dim ond oddeutu 300 sydd wedi cyrraedd y Trysorydd. A wnech chi eu hanfon yn ôl os gwelwch yn dda?

## Y Ffair Bob Peth

Mis Medi eleni ar y Sadwrn olaf ond un, cynhaliwyd Ffair Bob Peth y Gymdeithas ac ocsiwn yn y prynhawn. Mi fu'n llwyddiannus iawn a chafodd pawb, rwy'n tybio, fwynhad mawr. Hoffwn diolch i David Meredith am ei gyfraniad yn agor y Ffair Lyfrau ac i'r holl stondinwyr am ein cefnogi ni dros y blynyddoedd. Cafwyd rhai newydd y tro yma ac

fel dwi'n ei gweld hi, amrywiaeth o stondinau mae pawb yn ei fwynhau bellach, gan ein bod wedi cynnal Ffair Lyfrau yn unig yn y Bala ers blynyddoedd bellach.

## Maint Y Casglwr

Fel y gwelwch, mae maint Y Casglwr wedi newid. Gorfodwyd gwneud hyn arnom gan y byddai gyrru'r Casglwr ar ei faint arferol, heb ei blygu, yn costio i'r Gymdeithas £500 yn ychwaneg. Gobeithio y byddwch yn gweld y cylchgrawn yn haws i'w ddal ac ati. Awn ymlaen, nawr, i ddiwygio' Y Casglwr ymhellach drwy ychwanegu mwy o liw ac amrywiaeth o ddyluniadau. Gadewch inni wybod be' 'dach chi'n ei feddwl o'r fformat newydd.

## Rhoddion

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r holl aelodau sy'n anfon rhoddion i gefnogi'r Gymdeithas. Hebbydion nhw mi fyddwn wedi gorfodi codi y tâl aelodaeth ers tro. Os oes unrhyw rai yn eich mysg yn gwybod am fodd i gael grant o unrhyw ffynhonnell, gadewch inni wybod. Wrth gwrs, nid yw bod heb grant yn ddrwg i gyd. Mae'n gwneud i un fynd ati'n fwy tanbaid i geisio dulliau gwahanol o godi arian. Ond pe byddwn yn llwyddo i gynyddu'r aelodaeth, yna, mi fyddai'r broblem yn cael ei datrys.

## Diwrnod Agored y Gymdeithas

Flwyddyn nesaf, cynhelir Diwrnod Agored a Chyfarfod Blynyddol y Gymdeithas ym Mhortmeirion ar Sadwrn 31 Mawrth. Mawr horthmeirion ar Sadwrn 31 Mawrth. Mawr darlithoedd, a'r Pentref. Mae yna fwriad yn 2008 i drefnu penwythnos yn Nhan y Bwlch. Gadewch inni wybod beth ydych chi'n feddwl o'r syniad.

## Gwibdaith i Fro Caradog

Bu'r wibdaith i fro rhai o enwogion Cymru yn dra llwyddiannus. Hoffwn ddiolch i J. Elwyn Hughes am drefnu'r holl daith ac am ein tywys ni mewn modd mor ddechuetig.

## Rhag-hysbyseb

# DIWRNOD AGORED Y GYMDEITHAS

YM

## MHORTMEIRION

### SADWRN 31 MAWRTH, 2007

*Traddodir darlithoedd gan*

**Y Parch HUW JONES, Rhuddlan**  
**Y Parch TOWYN JONES, Caerfyrddin**  
**Y Parch HARRI PARRI, Caernarfon**  
**DEI TOMOS, Nant Peris**

Bydd y cyfan am bris rhesymol o £26.50 gan gynnwys paned a bisgedi, cinio ganol dydd a mynediad i'r Pentref